**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2025**

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi cael ei baratoi gan Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2025.

**Jayne Bryant AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
03 Chwefror 2025

## 1. Disgrifiad

Bydd y Rheoliadau hyn yn cynyddu'r uchafswm a'r isafswm, yn ogystal â swm cyfradd sylfaenol taliadau colli cartref sy'n daladwy o dan Ddeddf Iawndal Tir 1973 ("y Ddeddf").

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Gwneir Rheoliadau hyn o dan adran 30(5) y Ddeddf.

a) Mae taliadau colli cartref yn daladwy o dan y Ddeddf i berchen-feddianwyr a meddianwyr anheddau eraill, fel iawndal am gael eu dadleoli drwy bryniant gorfodol neu amgylchiadau eraill a bennir yn adran 29 o'r Ddeddf. Mae'r taliadau yn cael eu gwneud gan yr awdurdod caffael.

Maent yn cael eu talu i:

(a) perchen-feddiannydd ar gyfradd safonol o 10% o werth marchnadol ei fuddiant mewn annedd, yn destun trothwyon uchaf ac isaf; a

(b) meddianwyr eraill ar gyfradd safnol sy'n hafal i'r isafswm taliad i berchen-feddiannwr.

Uchafswm y trothwy presennol yw £62,000 a'r isafswm yw £6,200. Y gyfradd safonol bresennol hefyd yw £6,200 a gosodwyd y symiau hyn yn 2020, gan Reoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/340 (Cy.77)) ("Rheoliadau 2020") a ddaeth i rym ar 27 Ebrill 2020.

Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 30, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddi. Drwy rinwedd adran 162 a pharagraff 30 o Atodlen 11 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, cafodd pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y darparwyd yn adran 30 o Ddeddf 2003) eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Bydd y Rheoliadau hyn yn cynyddu'r uchafswm a'r isafswm o daliadau colli cartref ac yn cynyddu'r taliad cyfradd unffurf.

O ystyried y cynnydd ym mynegai prisiau tai wedi'u haddasu yn ôl amrywiaeth o eiddo y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar gyfer y DU yn ystod y cyfnod ers

i reoliadau 2020 gael eu gwneud, mae angen cynyddu'r uchafswm a'r isafswm, yn ogystal â'r swm cyfradd safonol, i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn unol â phwysau chwyddiant. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi diweddaru eu rheoliadau yn rheolaidd, a'r mwyaf diweddar yw Rheoliadau Taliadau Colli Cartrefi (Symiau Rhagnodedig) (Lloegr) 2023 (O.S. 2023/803), a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2023. Cafodd y rhain yr effaith o gynyddu'r symiau uchaf ac isaf i £81,000 ac £8,100 yn y drefn honno a'r gyfradd safonol i £8,100, yn Lloegr.

Gan ystyried y cynnydd ym Mynegai Prisiau Tai (HPI) yr ONS wedi'u haddasu yn ôl yr amrywiaeth o eiddo ar gyfer Cymru yn ystod yr un cyfnod, yn ogystal ag yn 2024, mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu cynyddu uchafswm ac isafswm y symiau i £82,000 ac £8000 yn y drefn honno a swm y gyfradd safonol i £8000.

Mae HPI yr ONS ar gyfer Cymru yn dangos cyfradd uwch i Gymru na Lloegr ym mis Ebrill 2021, 2022, a 2024. Mae hyn wedi arwain at gydgyfeirio prisiau. Mae hyn yn golygu y bydd uwchraddio'r taliadau colli cartref gan ddefnyddio mynegai Cymru yn arwain at gynnydd sylweddol ers yr ymarfer uwchraddio diwethaf yn 2020. Fodd bynnag, o ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio ers 2020, nid yw'r cynnydd yn cael ei ystyried yn afresymol, gan ei fod yn adlewyrchu amodau presennol y farchnad.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu'r symiau talu sydd wedi newid. Bydd y symiau cyfredol a ragnodir gan Reoliadau 2020 yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas â pobl wedi'u dadleoli cyn 5ed Mawrth 2025.

## 5. Ymgynghori

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r symiau uchaf ac isaf a swm cyfradd sylfaenol taliadau colli cartref yn unol â mynegai prisiau tai diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol yng Nghymru. Felly, ni chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol yn yr achos hwn, gan fod y cynnydd yn cael ei lywodraethu gan fformiwla a bennwyd ymlaen llaw a gwneir newidiadau tebyg yn weddol rheolaidd.

## 6. Cyhoeddusrwydd

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig am y trothwyon uwch a'r gyfradd safonol pan osodir y Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru.

## 7. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ystyriwyd Cod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer Is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau'n cynyddu ffi statudol gan fformiwla a bennwyd ymlaen llaw, ac o'r herwydd, ni ystyriwyd bod angen cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

## 8. Asesu'r Gystadleuaeth

Ddim yn briodol.

## 9. Adolygu ar ôl gweithredu

Mae trothwyon talu colli cartref yn cael eu hadolygu'n flynyddol ochr yn ochr â'r mynegai prisiau tai wedi'u haddasu yn ôl yr amrywiaeth o eiddo ar gyfer Cymru a Lloegr.